# TASG: SACHAU CERRIG

IAWN MET? WYT TI'N BAROD I DDECHRAU CHWERTHIN ETO? I EDRYCH AR HEN LUNIAU A FIDEOS UNWAITH ETO, AC I DDOD A GWÊN NÔL I'R TŶ?

**'WI MOYN SIARAD AMDANI GYDA CHI ACHOS NA SHWT BYDD HI'N AROS GYDA NI'**

DYMA BETH MAE JAC YN DWEUD YN Y RHAGLEN. MAE'N WIR ONDYW E?  MAE E MOR BWYSIG I SIARAD AM Y PERSON SYDD WEDI'N GADAEL NI ER MWYN EU CADW NHW'N FYW YN EIN COF NI.

AR ÔL COLLI RHYWUN OEDD YN BWYSIG IAWN I CHI, MAE'N ANODD WEITHIAU RHOI TREFN AR Y MEDDYLIAU A'R CWESTIYNAU SYDD YN DY BEN, AC MAE'R RHAIN YN GALLU PWYSO ARNAT TI'N DRWM FEL SACH O GERRIG.

OND BETH AM DDEFNYDDIO'R SACH O GERRIG YMA I DY HELPU DI LEIHAU'R BAICH SYDD AR DY YSGWYDDAU DI? GELLI DI DDEFNYDDIO SACH O GERRIG GO IAWN NEU RHAI WEDI EU HARGRAFFU.

AR DDECHRAU'R DASG BYDD Y SACH YN DRWM O'R HOLL OFIDIAU A'R HOLL GWESTIYNAU HEB EU HATEB.

TYNNA GARREG O'R SACH A DARLLENA BETH SYDD ARNI:

**PAN 'DWI'N MYND I GYSGU, 'DWI'N MEDDWL AM...**
**FY HOFF BETH AMDANO NEU AMDANI OEDD...**
**FY HOFF ATGOF GYDA FE NEU HI YW...**
**PE BAWN I'N GALLU GWELD NHW ETO BYDDEN I'N...**
**SUT GWNAETH E NEU HI FARW?**
**'ALLA I DDIM SIARAD AMDANO FE NEU HI ACHOS...**
**ROEDD E NEU HI MOR ARBENNIG ACHOS...**
**RWY'N GALLU SIARAD GYDA...**
**HOFFWN I DDATHLU EI FYWYD NEU EI BYWYD TRWY...**
**ADEG GWAETHAF Y FLWYDDYN YW...**
**PAN 'DWI'N TEIMLO'N DRIST, 'DWI'N...**
**MAE SIARAD GYDA RHYWUN YN BWYSIG ACHOS...**
**MAE FY YMDDYGIAD A THEIMLADAU YN CAEL EFFAITH AR...**

YDY'R PWYSAU YN YSGAFNHAU WRTH I'R CERRIG GAEL EU TYNNU O'R SACH? Y GOBAITH YW BYDD DY FEDDYLIAU DI YN YR UN FFORDD YN TEIMLO'N YSGAFNACH, AC Y BYDDI DI'N GALLU MEDDWL AM Y RHAI SYDD WEDI'N GADAEL NI GYDA GWÊN AC I GOFIO'R HOLL AMSEROEDD DA FU RHYNGOCH CHI.